**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru, Grŵp
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

28 Mawrth 2019

Annwyl Andrew

**Gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth**

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru yr adroddiad uchod ar 22 Ionawr 2019. Gwnaeth yr adroddiad ganfod bod gwariant y GIG ar staff asiantaeth yng Nghymru yn 2017-18 yn £135.7 miliwn, cynnydd o 171% ers 2010-11, â gwariant yn cyrraedd uchafbwynt o £164.4 miliwn yn 2016-17.

Mae'r adroddiad yn nodi bod bron i hanner y gwariant ar staff asiantaeth yn mynd tuag at staff meddygol a deintyddol a thraean arall yn cael ei wario ar nyrsys a bydwragedd. Mae cyrff iechyd yn nodi bod oddeutu 80 y cant o wariant ar staff asiantaeth yn cael ei wneud er mwyn llenwi swyddi gwag dros dro.

Er nad yw'r adroddiad yn gwneud unrhyw argymhellion penodol, mae'n nodi nifer o heriau i wella'r modd y rheolir gwariant ar staff asiantaeth. Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gan Lywodraeth Cymru ar ganfyddiadau'r adroddiad, a chynlluniau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

Mae'n debygol y byddwn yn craffu ar nifer o adroddiadau a chyfrifon blynyddol Byrddau Iechyd ar gyfer 2018-19 yn nhymor yr haf, lle byddwn yn debygol o ystyried ymhellach y defnydd a wneir o staff asiantaeth ac effaith hynny ar eu cyllidebau. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech gynnwys yn eich ymateb rai sylwadau

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

ar yr effaith yn sgil y gwariant a wnaed gan Fyrddau Iechyd ar staff asiantaeth, ynghyd â chyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth yn 2018-19, a hynny ar gyfer bob Bwrdd Iechyd ar wahân. Byddwn hefyd yn gwerthfawrogi pe gallech roi dadansoddiad o'r gwariant hwn ar staff clinigol, staff nyrsio a staff anfeddygol.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**